

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# 20mya

## Pecyn Cyfathrebu 20mya ar gyfer Rhanddeiliaid

Chwefror 2023

# Terfyn cyflymder 20mya i Gymru

Ar 17 Medi 2023 bydd terfyn cyflymder diofyn o 20mya yn cael ei gyflwyno ar gyfer ffyrdd cyfyngedig yng Nghymru. Cyn i'r terfyn cyflymder newydd ddod i rym, bydd Awdurdodau Lleol yn gweithio gyda chymunedau lleol i drafod y newidiadau, a pha ffyrdd fydd yn cael eu heithrio (ac yn parhau â therfyn cyflymder o 30mya). Nod y pecyn cyfathrebu hwn yw rhoi i dimau cyfathrebu Awdurdodau Lleol y naratif allweddol, y blaenoriaethau a'r asedau i'w defnyddio ar gyfer y gwaith hwn.



Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu ymgyrch ehangach i ategu'r broses o gyflwyno'r terfyn cyflymder o 20mya yng Nghymru. Rydyn ni'n disgwyl i'r ymgyrch fynd yn fyw ym mis Ionawr 2023. Yr adeg honno, byddwn yn darparu fersiwn wedi'i diweddaru o'r pecyn cyfathrebu hwn sy'n adlewyrchu'r ymgyrch derfynol.

| Dyddiad | Gweithgareddau ymgyrchu a cherrig milltir allweddol |
|---|---|
| Haf 2022 – 17 Medi 2023 | Cyfathrebu ag awdurdodau lleol ynghylch esemptiadau ac ymgysylltu mewn cymunedau |
| Haf 2022 – 17 Medi 2023 | Cyfathrebu rheolaidd gan Lywodraeth Cymru |
| Mawrth 2023 | Chwe mis tan 20mya – lansiad cenedlaethol<br>Cyhoeddi'r adroddiad monitro o ardaloedd y treial |
| 17 Medi 2023 | Rhoi terfyn cyflymder 20mya ar waith fel yr opsiwn diofyn ar ffyrdd cyfyngedig |

# Y naratif craidd

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell defnyddio'r naratif isod wrth gyfathrebu â chymunedau. Rydyn ni'n canolbwyntio ar ffordd ragweithiol o gyflwyno'r terfyn cyflymder newydd, lle byddwn yn egluro manteision terfyn cyflymder o 20mya, pam mae'r polisi'n cael ei gyflwyno a sut bydd yn gweithio.

Mae rhagor o wybodaeth am y polisi 20mya a rhai **cwestiynau cyffredin** ar gael ar llyw.cymru.

## Ynghylch 20mya yng Nghymru

O fis Medi 2023, bydd terfyn cyflymder diofyn o 20mya yn berthnasol i strydoedd preswyl a phrysur a ddefnyddir gan gerddwyr sydd â goleuadau yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud y newid hwn am nifer o resymau gan gynnwys:

- lleihau nifer y damweiniau a nifer yr anafiadau difrifol o ganlyniad i ddamweiniau (gana hefyd leihau'r effaith ar y GIG wrth drin pobl sydd wedi cael eu hanafu)
- annog rhagor o bobl i gerdded a beicio yn ein cymunedau
- helpu i wella ein hiechyd a llesiant
- gwneud ein strydoedd yn fwy diogel
- diogelu'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, y ffordd fwyaf effeithiol o wella diogelwch cerddwyr yw gostwng cyflymder cerbydau. Mae'r dystiolaeth o ledled y byd yn glir iawn – mae lleihau terfynau cyflymder yn lleihau nifer y damweiniau ac yn achub bywydau. Yn y pellter mae'n cymryd i gar sy'n teithio 20mya stopio, mae car sy'n gwneud 30mya yn parhau i wneud 24mya. Mae hyn yn gwneud cryn wahaniaeth i'r gallu i osgoi gwrthdrawiad. Pan fydd cerddwr yn cael ei fwrw gan gerbyd sy'n gwneud tua 30mya, mae'n bum gwaith mwy tebygol o gael ei ladd na phan fydd cerbyd yn gwneud tua 20mya[1].

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn credu y gallai gostwng y terfyn cyflymder diofyn i 20mya arwain at fanteision iechyd sylweddol. Bydd 20mya yn lleihau'r risg o ddamweiniau, yn helpu pobl i deimlo'n fwy diogel ac yn gwella llesiant corfforol a meddyliol pobl. Yn ôl amcangyfrifon gan astudiaeth iechyd y cyhoedd ddiweddar[2], gallai'r terfyn cyflymder diofyn o 20mya arwain at y canlynol:

» 40% llai o wrthdrawiadau

» achub 6 – 10 bywyd bob blwyddyn

» osgoi anafiadau i 1,200 – 2,000 o bobl bob blwyddyn.

Byddai hyn yn arbed tua £92 miliwn drwy atal ddamweiniau yn y flwyddyn gyntaf.

Mae hefyd dystiolaeth o ledled y byd yn dangos mai cyflymderau cerbydau yw un o'r prif resymau pam nad yw pobl yn cerdded neu'n beicio, nac yn caniatáu i'w plant gerdded neu feicio i'r ysgol. Bydd cyflymderau traffig is yn creu cymunedau gwell i fyw ynddyn nhw ac yn annog rhagor o gerdded a beicio. Bydd plant yn fwy diogel cyn gynted ag y maen nhw'n gadael eu cartref, pan fyddan nhw'n chwarae yn yr awyr agored neu'n cerdded i'r ysgol, a bydd pobl hŷn yn fwy tebygol o deimlo eu bod yn gallu teithio yn annibynnol ac yn ddiogel.

Mae gyrru'n arafach yn cynhyrchu llai o sŵn, yn lleihau faint o danwydd sy'n cael ei ddefnyddio, ac mae'n debygol y bydd allyriadau egsôst ac allyriadau eraill yn is hefyd. Dylai cyflymu i gyflymder is o 20mya, a gyrru ar gyflymder mwy cyson, yn golygu na fydd teiars a breciau'n treulio cymaint[3], a gallai hyn hefyd arbed costau tanwydd[4].

---

1 Davis, A. 2023 Essential Evidence 4 Scotland No.63 Impact speed and pedestrian fatality risk, Transport Research Institute, **https://blogs.napier.ac.uk/tri/essential-evidence-scotland**
2 Jones, S., Brunt, H. 2017 Twenty miles per hour speed limits: a sustainable solution for public health problems in Wales, Journal of Epidemiology and Community Health, doi:10.1136/jech-2016-208859
3 Williams, D., North, R. 2013. An evaluation of the estimated impacts on vehicle emissions of a 20mph speed restriction in central London
4 NICE, 2017 Air pollution: Outdoor air quality and health, NICE Guideline 70 **nice.org.uk/guidance/ng70**. London: NICE.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda GanBwyll a'r Heddlu sy'n gorfodi terfynau cyflymder yng Nghymru, i sicrhau bod gyrwyr yn cydymffurfio â'r terfynau cyflymder newydd, a bod gyrwyr yn cael eu cefnogi i newid eu hymddygiad.

Er mai 20mya fydd y terfyn cyflymder diofyn ar gyfer strydoedd preswyl a strydoedd prysur a ddefnyddir gan gerddwyr, ni fydd pob ffordd yn newid i 20mya. Bydd cynghorau lleol yn ystyried pa strydoedd a ddylai barhau i fod â therfyn cyflymder o 30mya. Bydd hefyd arwyddion bob hyn a hyn ar strydoedd sydd â therfyn cyflymder o 30mya i atgoffa mai 30mya yw'r terfyn cyflymder. Mae hyn yn golygu, os bydd goleuadau stryd ar ffordd, ac nad oes unrhyw arwyddion terfyn cyflymder, y dylai gyrwyr gymryd yn ganiataol mai 20mya yw'r terfyn cyflymder.

Yn yr arolwg barn gyhoeddus diweddaraf, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, roedd bron dau o bob tri o bobl o blaid terfyn cyflymder is lle maen nhw'n byw, roedd 62% yn cytuno y 'dylai pawb arafu ychydig ar y ffyrdd', ac roedd 55% yn cytuno y 'byddai terfyn cyflymder o 20mya yn gwneud y strydoedd yn fwy dymunol o lawer ar gyfer cerddwyr'.

Mae adborth arall, mewn gohebiaeth wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru, yn dangos bod pobl sy'n byw ar strydoedd â therfyn cyflymder o 20mya yn dod i arfer â'r terfyn cyflymder is ac yn gweld y manteision.



Bydd y terfyn cyflymder diofyn o 20mya ar waith lle mae pobl yn byw. Mae'n cael ei weithredu er budd trigolion a'u cymunedau. Bydd cyflwyno'r terfyn cyflymder yn gwneud strydoedd yn fwy diogel a chymunedau yn iachach.

# Y broses ar gyfer eithriadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau diwygiedig ar gyfer Awdurdodau Lleol ar yr eithriadau i'r terfyn diofyn newydd o 20mya. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi map ar MapDataCymru sy'n dangos eithriadau i'r terfyn cyflymder 20mya diofyn (h.y. ffyrdd a fydd yn parhau i fod â therfyn cyflymder o 30mya drwy orchymyn).

**Yn y pen draw Awdurdodau Lleol a fydd yn penderfynu pa ffyrdd a fydd yn parhau i fod â therfyn cyflymder o 30mya** a dylent drafod y rhain â chymunedau.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r naratif canlynol gyda'r cyfyngau yn ystod y broses hon:

Dywedodd llefarydd ar ran Llywodraeth Cymru:

**"Ni fydd y ddeddfwriaeth newydd yn gosod terfyn cyflymder cyffredinol ar bob ffordd — y cyfan mae'n ei wneud yw creu terfyn cyflymder diofyn o 20mya. Yn y pen draw yr Awdurdodau Lleol a fydd yn penderfynu pa ffyrdd fydd yn parhau i fod â therfyn amser o 30mya, ar ôl iddyn nhw ymgynghori â thrigolion. Gyda'n gilydd rydyn ni'n dysgu gwersi o ardaloedd peilot y cam cyntaf".**

# Ymdrin ag ymholiadau gan y cyfryngau

Mae Llywodraeth Cymru yn hapus i dderbyn ymholiadau cyffredinol gan y cyfyngau ynghylch y polisi 20mya. Dylid anfon pob ymholiad at Swyddfa'r Wasg Llywodraeth Cymru yn: **ClimateChange-PressOffice@llyw.cymru**

Mae penderfyniadau ynghylch ffyrdd sy'n cael eu heithrio yn cael eu gwneud gan Awdurdodau Lleol, a bydd angen i dimau perthnasol y cyfryngau / y wasg ymdrin â'r rhain. Bydd Llywodraeth Cymru yn atgyfeirio unrhyw gwestiynau penodol am ffyrdd sy'n cael eu heithrio i'r Awdurdod Lleol.

# Asedau

I'ch helpu i gyfathrebu â'ch cymunedau, yn ogystal â'r prif negeseuon uchod mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu nifer o asedau digidol. Bydd y rhain yn cael eu diweddaru ym mis Mawrth 2023 i adlewyrchu'r ymgyrch newydd a fydd yn cael ei chynnal. Byddwn yn anfon pecyn cyfathrebu wedi'i ddiweddaru i Awdurdodau Lleol ym mis Ionawr 2023.

**Baneri ar gyfer y we**

**Lluniau ar gyfer Twitter (2022)**

**Lluniau ar gyfer Twitter (2023)**

**Posteri A3**

Os oes angen yr asedau hyn arnoch mewn meintiau eraill cysylltwch â: **cttc@llyw.cymru**












OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG46985, ISBN digidol 978-1-80535-499-4

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg